# ASTRO-DWRISTIAETH ...canllawiau

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

Dyfarnwyd statws Awyr Dywyll i Barc Cenedlaethol Eryri yn 2015, sy'n gydnabyddiaeth ryngwladol i ardaloedd a nodir am ansawdd eu nosweithiau serennog, oherwydd tywyllwch eu hawyr a dim llygredd golau.

Mae astro-dwristiaeth wedi tyfu fel sector dros y blynyddoedd diwethaf, wedi'i sbarduno'n rhannol gan fwy o amlygiad ar y teledu e.e. Stargazing Live ar y BBC.

## * Ein Digwyddiadau Cyflwyno Awyr Dywyll...

Cynhaliodd Arloesi Gwynedd Wledig gyfres o weithdai astro-dwristiaeth ar gyfer busnesau llety sydd wedi'u lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Nod y digwyddiadau hyn oedd darganfod a all y statws Awyr Dywyll ddenu ymwelwyr ychwanegol i'r ardal, yn enwedig y tu allan i'r tymhorau brig.

Os yw'ch busnes ym Mharc Cenedlaethol Eryri, darllenwch y canllaw rhagarweiniol hwn ynghyd ag awgrymiadau ar sut i ddefnyddio'r statws Awyr Dywyll i gynyddu nifer eich archebion...

AWYR DYWYLL GWYNEDD

DARK SKY GWYNEDD



Planetariwm Dros Dro yn un o'r Digwyddiadau Cyflwyno Awyr Dywyll

"Oherwydd poblogrwydd astro-dwristiaeth yn yr ardal, mae llawer o ddarparwyr llety ac atyniadau bellach yn darparu profiadau gwyliau arbennig ar gyfer eu gwesteion. Bu hyn yn boblogaidd iawn, a denodd lawer o ymwelwyr y tu allan i'r tymhorau brig."

ALLAN TROW
AWYR DYWYLL CYMRU

"Dim ond un ar ddeg o'r gwarchodfeydd hudolus hyn sydd ar gael yn y byd, ac ar noson glir yn Eryri gallwch weld y Llwybr Llaethog, yr holl brif gytserau, nifylau (cymylau llachar o nwy a llwch) a sêr gwib."

PROFI'R TYWYLLWCH CYMRU
www.discoveryinthedark.wales/snowdonia

*Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedd yr ardal gyntaf yng Nghymru i ennill statws Awyr Dywyll Ryngwladol. Mae'r ardal wedi ceisio manteisio i'r eithaf ar fudd economaidd y statws hwn trwy ymgysylltu â'r sector twristiaeth er mwyn darparu profiadau seryddiaeth i dwristiaid.*

Awgryma'r adborth cychwynnol bod hyn wedi gweithio, a bod digwyddiadau astro-dwristiaeth yn boblogaidd iawn ac yn cael eu harchebu.

Yr amser gorau i edrych ar y sêr yn Eryri yw o fis Medi tan Mawrth

peilota...dysgu...rhannu

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

MENTER MÔN

DYDDIAD GORFFEN PROSIECT Ebrill 2017
RHEOLWR PROSIECT Rachel Roberts
Pecyn Cymorth Arloesi Gwynedd Wledig #002

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

# camau i...ASTRO-DWRISTIAETH lwyddiannus



## 1. Edrychwch i Fyny!

- Er mwyn i chi allu cynnal / hyrwyddo digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag astro-dwristiaeth yn hyderus, dewch i ddeall awyr y nos eich hun. Nid oes angen sgiliau neu wybodaeth helaeth am seryddiaeth, dim ond diddordeb cyffredinol yn awyr y nos.

*...mae llawer o adnoddau am ddim ar gael, o apiau i wefannau i daflenni, er mwyn ymestyn eich gwybodaeth am awyr dywyll Eryri...*

- Mae hon yn wefan wych, gan gynnwys pecyn cymorth, ar bopeth sy'n ymwneud ag Awyr Dywyll, a phan fyddwch chi'n barod, gallwch ychwanegu eich busnes at y wefan... *http://www.discoveryinthedark.wales/snowdonia*




- Lawrlwythwch yr *Celestron SkyPortal App* sydd am ddim. Mae'r ap hwn yn gweithredu fel eich canllaw awyr personol i ailddiffinio sut rydych chi'n profi awyr y nos!






- Dewch o hyd i'r daflen hon gan Parc Cenedlaethol Eryri, neu argraffwch y fersiwn ar-lein... *http://www.eryri.llyw.cymru/__data/assets/pdf_file/0008/661418/GweldSer-SeingStars.pdf*

*Agwedd unigryw, hyrwyddadwy i Awyr Dywyll Eryri yw'r cyswllt diwylliannol rhwng y sêr a straeon y Mabinogi a'r Hen Benillion.

Gwyliwch ein ffilm am astro-dwristiaeth →




## 2. Dyma'r Offer...

- **Ysbienddrych:**
  Olympus Binocular 10 x 50 DPS-1
  (Tua £65)
- **Siartiau'r Sêr:**
  Philip's Planisphere - Latitude 51.5 North
  (Tua £10)
- **Llyfrau Sêr:**
  Philip's 2018 Stargazing - Month by Month Guide to the Night Sky

  Dark Land, Dark Skies gan Martin Griffiths

- Dowch o hyd i arbenigwyr seryddiaeth leol a meddyliwch am gysylltu â chymdeithasau seryddiaeth leol.
- Llogwch blanetariwm boblogaidd Awyr Dywyll Cymru ar gyfer digwyddiad ar raddfa fawr http://www.darkskywales.org/services/digital-planetarium

Am ragor o wybodaeth am hyn, ewch i

www.arloesigwyneddwledig.com
@ArloesiGwyneddWledig
@ArloesiGwynedd

## 3. Hyrwyddwch eich Adnoddau Astro!

- Dywedwch wrth bobl ar bob pwynt am y cyfleoedd lluosog i wylio'r sêr o fynyddoedd a llethrau Eryri...ac am y statws Awyr Dywyll.
- Cynnig profiad nosweithiau serennog:
  * **Nosweithiau gwylio'r sêr**
  * **Sgyrsiau seryddiaeth**
  * **Astro ffotograffiaeth**
  * **Teithiau cerdded**
  * **Cyfres ddarlithio seryddiaeth**
  * **Profiad planetariwm**
- Hyrwyddwch y statws Awyr Dywyll ar wefannau a deunyddiau printiedig - gadewch i bobl wybod bod Eryri yn lle arbennig i fwynhau'r sêr, rhan o dreftadaeth naturiol Cymru. Tynnwch sylw at hyn fel atyniad ychwanegol i'r ardal.
- Mae'r potensial ar gyfer astro-dwristiaeth yma yn enfawr, o ystyried y nifer fawr o ymwelwyr dros nos i Barc Cenedlaethol Eryri, sydd fel arfer yn anelu at brofi'r gorau o'r awyr agored...pwy sydd ddim efo gwylio'r sêr ar eu rhestr o brofiadau dymunol!


CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
NDA Nuclear Decommissioning Authority
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government